

FFERM WYNT MYNYDD Y GWYNT

CRYNODEB ANNHECHNEGOL

Cynnwys	Tudalen
Cyflwyniad	2
Mwy am Fynydd y Gwynt	2
Y Safle	3
Y Prosiect	4
Cysylltu â'r Grid	7
Trafnidiaeth	8
Ymgynghori	10
Proses Gwneud y Cais	10
Polisi a Rhesymwaith y Cynllun	10
Mynydd y Gwynt a Safleoedd Chwilio Strategol Tan 8	11
Adeiladu	11
Dadgomisiynu	12
Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol	13
• Cyflwyniad	13
• Effeithiau Tirlun	13
• Asesiad Cronnus Tirlun ac Effaith Weledol	14
• Sŵn	16
• Cysgodion Symudol	16
• Ecoleg ac Ornitholeg	17
• Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol	21
• Traffig a Thrafnidiaeth	22
• Daeareg, Hydroleg a Hydroddaeareg	23
• Signalau electromagnetig	24
• Cymdeithasol-economaidd	24
• Cysylltu â'r Grid	25
Casgliad ac Effeithiau Gweddilliol	26
Gweld y Cais DCO	27

Cyflwyniad

1. Mae Mynydd y Gwynt Ltd yn gwneud cais am Gydsyniad Datblygu (caniatâd) i godi Fferm Wynt Mynydd y Gwynt ("y Fferm Wynt") yng Nghanolfan Ralïo a fferm Sweet Lamb, i'r gorllewin o Langurig. Bydd y Fferm Wynt yn cynnwys 27 tyrbin gwynt, a rhyngddynt bydd ganddynt y capasiti i gynhyrchu rhwng 81 ac 89.1 MW. Gan fod y capasiti cynhyrchu dros 50 MW, mae'r prosiect hwn yn cael ei ystyried yn Brosiect Seilwaith o Bwys Cenedlaethol (NSIP). Y Crynodeb Annhechnegol (NTS) hwn yw rhan gyntaf y Datganiad Amgylcheddol (ES) a gyflwynir gan Fynydd y Gwynt Limited i'r Arolygiaeth Cynllunio (PINS) i gefnogi ei gais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd am Orchymyn Cydsyniad Datblygu yn dilyn Deddf Cynllunio 2008, i godi a gweithredu'r Fferm Wynt arfaethedig.

Mwy am Mynydd y Gwynt Ltd

2. Mae Mynydd y Gwynt Ltd (yr ymgeisydd) yn gwmni a sefydlwyd gan dirfeddianwyr a gwŷr busnes lleol ar gyfer sefydlu fferm wynt yng Nghanolfan Ralïo Sweet Lamb. Mae teulu'r tîrfeddianwyr wedi ffermio'r tir am dros 100 mlynedd. Mae'n cydweithio erbyn hyn â Renewable Energy Holdings plc, datblygwyr ynni adnewyddadwy.



Mynedfa Fferm a Chanolfan Ralïo Sweet Lamb i'r A44

3. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi canfyddiadau'r Datganiad Amgylcheddol mewn iaith annhechnegol, ac fe'i paratowyd i gynorthwyo pobl sydd â diddordeb a'r cyhoedd yn gyffredinol i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth lawn am y cais.



Lleoliad y safle

Y Safle

4. Lleolir y safle yng Nghanolfan Ralió a fferm Sweet Lamb, darn o dir i'r gogledd o gefnffordd yr A44 rhwng pentrefi Llangurig 8 cilomedr i'r dwyrain a Phonterwyd 9.5 cilomedr i'r gorllewin. Mae'r tir yma'n codi o'r ffordd i lwyfandir sydd bron i 550 metr uwchlaw lefel y môr. Mae ar dir fferm a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer pori defaid, ac er bod ganddo ddefnyddiau anamaethyddol eraill, yr enw mwyaf cyffredin arno yw Canolfan Ralió Sweet Lamb.




Traciau'r Ganolfan Raliö/fferm bresennol

5. Mae cyfanswm arwynebedd y fferm o gwmpas 2000ha. Maint y llecyn cais a amlinellir yn goch yw tua 584 ha. Bydd prosiect y Fferm Wynt angen tua 9.4ha o dir parhaol newydd ar gyfer gwneud traciau newydd, sylfeini tyrbinau a'r is-orsaf. Mae rhwydwaith helaeth o draciau ar y safle'n barod ynghyd â llecyn parcio wyneb caled mawr a ddefnyddir ar gyfer parcio adeg raliâu ac yn llain saethu. Bydd defnyddio'r rhain ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn lleihau'n fawr faint o draciau a llecynnau wyneb caled newydd fyddai eu hangen fel arall.

Y Prosiect

6. Byddai datblygiad y fferm wynt arfaethedig yn cynnwys:
- 27 tyrbîn (pob un ohonynt yn gallu cynhyrchu rhwng 3 a 3.3MW);
 - ceblau trydanol a chyfathrebu tanddaearol;
 - is-orsaf, adeilad rheoli a chyswllt lloeren;
 - ehangu 9.5km o draciau presennol;
 - gosod 6.9km o draciau newydd; a
 - gosod mast meteorolegol.
7. Hefyd, ac er bod hyn yn cael ei reoli gan drefn ganiatáu ar wahân, mae'n debyg y bydd yr awdurdodau trafnidiaeth perthnasol yn mynnu fod rhaid gwneud peth mân waith priffyrdd er mwyn hwyluso'r gwaith o gludo llwythi anarferol i'r safle, sef yn benodol felly addasiadau i gelfi stryd ac ymestyn tair cilfan ac adeiladu dwy gilfan newydd.



Ffigur 2.1 Cynllun y safle

8. Gan y gallai pob tyrbin gynhyrchu 3-3.3MW yr awr byddai gan y Fferm Wynt gapasiti gorffenedig o 81-89.1MW. Uchder y tyrbinau i fin y llafn fyddai 125m. Gan ddibynnu ar ba dyrbin yn union a osodid byddai uchder y tŵr rhwng 70-80m a byddai diamedr eithaf y llafnau rhwng 90-105m.
9. Mae'r cynnig presennol yn seiliedig ar amlen tyrbin sy'n cyfuno cymysgedd o nodweddion tyrbinau Vestas V105 3.3MW a V90 3MW. Ystyrir yr effaith gwaethaf posib ar gyfer pob mater amgylcheddol. Yn gyffredinol, mae'r V105 uwch ei gapasiti yn debyg o greu mwy o effaith, ond wrth ystyried sŵn, mae cynllun hynach yr V90 yn fwy swnllyd na'r V105 newydd. Eithriad i hynny yw'r gwaith cludo, ac yn hynny o beth y tyrbin V90 3MW yw'r dewis dyrbin. Mae technoleg tyrbinau'n gwella drwy'r amser ac mae cwmnïau'n gyson yn cynhyrchu modelau mwy effeithlon a chynhyrchiol. Bydd union fodel y tyrbin yn cael ei benderfynu'n ddiweddarach, ond ni fydd y terfyn uchder llafn allweddol o 125m yn newid, er os defnyddir diamedr rotor mwy bydd uchder y both yn cael ei leihau. Bydd ceisiadau'n cael eu gwneud am unrhyw ganiatadau diwygiedig ychwanegol angenrheidiol yn ôl y galw.
10. Bydd y fynedfa i'r safle yn syth o gefnffordd yr A44. Bydd unrhyw lwythi anarferol yn cael eu tywys gan yr Heddlu gan ddefnyddio'r llwybr a ddisgrifir ym mharagraff 16 isod.



Mynediad y safle o'r A44

Cysylltu â'r Grid

11. Nid yw'r cais cynllunio hwn yn cynnwys y cysylltiad â'r grid trydan gan mai cyfrifoldeb y cwmni trydan lleol (yn y cyswllt hwn SP Manweb fel y 'Cwmni Rhwydwaith Dosbarthu') yw gwneud cais ar wahân i ddarparu'r cysylltiad grid. Fodd bynnag, mae'n arfer gorau i ystyried effaith y cysylltiad yn y cam hwn o'r broses ac rydym felly wedi cynnwys asesiad pen desg o'r llwybr grid mwyaf tebygol. Mewn gwirionedd, cynhwysir dau asesiad llwybrau grid posib yn dilyn trafodaethau gydag SP Manweb. Y cyntaf, Dewis 1, oedd y dewis llwybr grid gan SP Manweb yn 2011. Fodd bynnag, wrth i'w cynlluniau ar gyfer cysylltiadau grid yn y Canolbarth ddatblygu, cyfeiriodd SP Manweb (yn 2012) at llwybr mwy tebygol, a rhoddir sylw i hwnnw yn Ddewis 2 yn y Datganiad Amgylcheddol. Yn dilyn trafodaethau gydag SP Manweb, bydd y llwybr mwy tebygol hwn trwy Garno, gan ddefnyddio polion pren ar gyfer y rhan fwyaf o'r daith i'r is-orsaf newydd a gynlluniwyd yng Nghefn Coch.
12. O'r safle, mae'r llwybr hwn yn rhedeg ar bolion pren trwy Ddyffryn Hafren, gan ddilyn traciau'r goedwig er mwyn osgoi'r angen i dorri coed. Ar ôl gadael y goedwig, byddai'n rhedeg yn gyfochrog â ffyrdd bach, gan ddefnyddio polion pren o hyd, o gwmpas pen gogleddol cronfa ddŵr Llyn Clywedog. Gan symud i'r gogledd o Lyn Clywedog, mae'r llwybr yn croesi tir fferm amgaeedig i Garno.




Is-orsaf a llecyn gwaith y contractwyr

13. O is-orsaf Carno byddai'r llinell yn cael ei rhannu â chysylltiad grid arfaethedig Carno III ac yn parhau i Gefn Coch gan ddefnyddio llwybr BSC SP Manweb. O ochr ogleddol yr A470 i Gefn Coch mae gan SP Manweb gydsyniad ar gyfer codi llinell polion pren 132kV am ran o'r llwybr, ac mae SPM wedi awgrymu y gallai hwnnw gael ei ddefnyddio.

Trafnidiaeth

14. Oherwydd eu hyd a/neu eu pwysau, mae rhai cydrannau tyrbinau gwynt yn cael eu trin yn llwythi anarferol, ac o'r herwydd rhaid gwneud trefniadau arbennig ar gyfer eu cludo. Cynigir y bydd unrhyw lwythi anarferol ar gyfer Fferm Wynt Mynydd y Gwynt yn gadael Porthladd Abertawe ac yn teithio i'r safle o'r de, trwy Aberteifi ac Aberystwyth. Ceir disgrifiad byr isod o'r llwybr y bydd y llwythi anarferol yn ei ddilyn.
15. Defnyddiwyd y llwybr arfaethedig o Abertawe i'r M4 yn y gorffennol ar gyfer cludo cydrannau tyrbinau gwynt i safle, a chafodd yr allanfa o'r porthladd ei wella ac i raddau helaeth ei adeiladu o'r newydd ar gyfer gwasanaethu fferm wynt Blaengwen. Mae'r gyffordd hon hefyd wedi gwasanaethu fferm wynt Mynydd-y-Betws.
16. Byddai'r llwybr arfaethedig yn mynd â'r llwythi ar hyd Rhodfa Fabian (A483) allan o Borthladd Abertawe a bydd llwythi'n uno â'r M4 yng Nghyffordd 42 i'r gorllewin.
 - Yng Nghylchfan Pontabraham bydd y llwythi'n gadael yr M4 ac yn parhau ar hyd yr A48 (Cyffordd 49).
 - I'r de o Gaerfyrddin, bydd y llwythi anarferol yn parhau ar yr A40 i'r gorllewin.
 - Yng Nghylchfan Penblewin bydd yr holl lwythi'n troi i'r dde i'r A478, ac yn teithio i'r gogledd.
 - Wrth deithio i'r de o Aberteifi, bydd y llwythi'n troi i'r dde i'r A487 i'r dwyrain.
 - Yng Nghylchfan Ffordd Penparcau i'r de o Aberystwyth bydd y llwythi anarferol yn troi i'r dde i'r A4120, yn parhau i'r gogledd ac yn troi i'r dde yng nghylchfan Heol-y-Bont.
 - Yn y gyffordd â'r A44, bydd y llwythi'n troi i'r dde ac yn parhau i'r dwyrain ar yr A44 i'r gyffordd arfaethedig ar gyfer Mynydd-y-Gwynt.
 - Cyfanswm hyd y llwybr o Borthladd Abertawe i Fynydd-Y-Gwynt yw tua 130 milltir.



Llwybr Llwythi anarferol i'r safle

Ymgynghori

17. Mae Mynydd y Gwynt Ltd wedi ymrwmo i gynnal ymgynghoriad llawn a thrylwyr trwy gydol y broses ddatblygu a chynllunio, a chynhaliwyd ymgynghoriadau er 2005. Roedd yr ymgynghoriadau cychwynnol gyda budd-ddeiliaid hedfan a thelegyfathrebu, er mwyn hwyluso'r gwaith o baratoi gosodiad cychwynnol. Yna, danfonwyd adroddiad cwmpasu at Gyngor Sir Powys a Chyngor Cefn Gwlad Cymru fel yr oedd ar y pryd (Cyfoeth Naturiol Cymru - "CNC" erbyn hyn). Gwnaed rhagor o ymgynghori gyda'r prif ymgynghoreion ar gyfer treftadaeth ddiwylliannol, swyddogion arbenigol o Adrannau'r Cyngor Sir yn gyfrifol am sŵn, cysgodion symudol a thirlun, a chynhaliwyd cyfarfodydd gydag Asiantaeth Cefnffyrdd Canolbarth Cymru. Gan fod y safle'n agos i'r ffin â Cheredigion, ymgynghorwyd hefyd â Chyngor Sir Ceredigion.
18. Erbyn yr hydref 2006 roedd y cynlluniau wedi'u datblygu'n ddigonol i allu ymgynghori â chymunedau lleol trwy ddefnyddio nifer o ddulliau, yn cynnwys llythyrau, cylchlythyr, gwefan a chyfarfodydd cyhoeddus.
19. Cyflwynwyd gweithdrefnau newydd ar gyfer rhoi cydsyniad i ffermydd gwynt mawr gan Ddeddf Cynllunio 2008 ac er bod yr ymgynghori wedi parhau, arafodd y gwaith ar y cynllun wrth i'r gweithdrefnau newydd gael eu cyflwyno. Erbyn mis Mehefin 2011 cychwynnodd Mynydd y Gwynt gylch newydd o ymgynghori, yn dilyn y gweithdrefnau yn y Ddeddf Cynllunio. Cynhaliwyd cyfarfodydd cyhoeddus, trafodaethau gyda swyddogion Cynghorau Sir a sefydliadau a chanddynt ddyletswydd statudol i gynghori ar geisiadau cynllunio. Mae'r ymgynghori'n dal i ddigwydd ar hyn o bryd. Esbonnir manylion llawn y broses ymgynghori yn yr **Adroddiad Ymgynghori (MYG-AD-05)** a gyflwynwyd gyda'r cais i'r Arolygiaeth Cynllunio a gellir ei lawr lwytho o'u gwefan.

Proses Gwneud Cais

20. Gan fod capasiti'r cynllun arfaethedig dros 50MW, mae Deddf Cynllunio 2008 yn ei ystyried yn 'Brosiect Seilwaith o Bwys Cenedlaethol'. O'r herwydd, mae'n rhaid gwneud cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (caniatâd cynllunio) i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd, a chaiff y cais ei weinyddu gan yr Arolygiaeth Cynllunio ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol.
21. Bydd yr Arolygiaeth Cynllunio yn archwilio'r cais yn unol â Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad Effaith Amgylcheddol) 2009 a chanllawiau cysylltiol, a bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) yn penderfynu'n derfynol rhoi Cydsyniad Datblygu ai peidio.

Polisi a Rhesymwaith y Cynllun

22. Mae Llywodraeth y DU yn dweud fod y DU yn rhy ddibynnol ar danwydd ffosil a bod angen iddi geisio rhoi'r gorau i ddefnyddio cymaint o ynni carbon uchel. Mae polisi'r Llywodraeth yn datgan felly fod "*angen brys*" i "*gyflwyno prosiectau cynhyrchu trydan adnewyddadwy newydd cyn gynted ag y bo modd.*"

23. Mae'r Llywodraeth wedi gwneud yr ymrwymiadau hyn oherwydd ei bod yn credu y byddai parhad allyriadau byd-eang ar y lefelau presennol yn peri i dymereddau byd-eang godi 6°C erbyn diwedd y ganrif, ac o'r herwydd fod rhaid i allyriadau byd-eang ddechrau gostwng ar frys. I'r perwyl hwnnw, lluniodd y Llywodraeth fframwaith sy'n gyfreithiol gaeth i dorri allyriadau carbon 80% erbyn 2050.
24. Cred y Llywodraeth fod symud at economi carbon isel yn hanfodol er mwyn wynebu her y gostyngiad yn yr olew a nwy sydd ar gael er mwyn gwella sicrwydd y cyflenwad yn ogystal â chyflawni targedau allyriadau.
25. Mae polisi Cymreig yr un mor gefnogol i gynhyrchu ynni carbon isel. Yn ei Ddatganiad ar Bolisi Ynni ym mis Mawrth 2010 "Chwyldro Carbon Isel" dywed Llywodraeth Cymru mai *"Newid Hinsawdd yw'r her amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol fwyaf sy'n wynebu'r blaned ... Bydd ein lles i'r dyfodol, yn faterol a chymdeithasol, yn dibynnu ar sicrhau cyflenwadau digonol o ynni carbon isel fforddiadwy. Mae'r angen hwn yn cael ei gefnogi gan y prif ddogfennau polisi eraill yng Nghymru, Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 8 (TAN 8).*
26. Mae polisi cynllunio yn cydnabod er hynny na ellir cyflawni prosiectau seilwaith mawr o'r math yma heb effaith amgylcheddol. Yng ngoleuni'r cefndir a ddisgrifiwyd yn fyr ynghynt, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol werthuso a yw effeithiau'r cynllun yn gorbwysu'r buddiannau a gynigia trwy gynhyrchu ynni adnewyddadwy, carbon isel.

Mynydd y Gwynt a Safleoedd Chwilio Strategol Tan 8

27. Mae TAN 8 yn gefnogol iawn i ddatblygiadau ffermydd gwynt ar safleoedd addas yng Nghymru, ac er ei fod yn nodi fod sawl ardal, a elwir yn "Ardaloedd Chwilio Strategol" neu ardaloedd "SSA", yn addas, ar sail meini prawf gwrthrychol, ar gyfer datblygu ffermydd gwynt mawr, nid yw'n ceisio cyfyngu datblygiadau o'r fath yn llwyr i'r ardaloedd hyn.
28. Cyflwynwyd prosiect Fferm Wynt Mynydd y Gwynt gan y tiffeddianwyr ymhell cyn i fersiwn Gorffennaf 2005 nodyn cyngor TAN 8 gael ei chyhoeddi. Mae'r safle'n sgorio'n uchel ar y meini prawf asesu a ddefnyddir i ddatblygu'r ardaloedd SSA, ond ni chafodd ei ystyried oherwydd y byddai'r fferm yn croesi ffiniau llecyn ymarfer hedfan isel yr RAF. Ar ôl ymgynghori cadarnhaodd yr RAF na fyddai lleoliadau arfaethedig y tyrbinau yn creu problem. Yn anffodus, daeth y cadarnhad hwnnw'n rhy hwyr i allu cynnwys y safle yn ardal SSA dynodedig.
29. Fodd bynnag, gan ei fod yn 'safle cymharol anghyfyngedig' mae polisïau presennol y DU a Chymru yn cefnogi'r cynllun fel y mae.

Adeiladu

30. Amcangyfrifir y cymer 13 mis i adeiladu'r cynllun. Bydd dyddiad cychwyn ar y gwaith adeiladu yn dibynnu ar argaeledd y cysylltiad grid trydan â chanolbarth Cymru. At ddibenion yr asesiad hwn rhagdybir y bydd yn cychwyn yn 2018 ac y bydd y cysylltiad grid trydan ar gael yn 2019. Efallai y trefnir cyflenwadau o gerrig cyn hynny er mwyn gallu adeiladu'r traciau mynediad newydd yn weithgaredd tymhorol ar wahân i'r brif raglen adeiladu er mwyn lleihau'r effeithiau amgylcheddol. Darperir ar gyfer hynny yn y rhaglen adeiladu gyffredinol os ceir cydsyniad datblygu.

31. Mae elfennau ffisegol y prosiect fel a ganlyn:
- codi canolfan safle dros dro yn cynnwys gwasanaethau cysylltiol ar gyfer y cyfnod adeiladu. Lleolir hon ar safle maes parcio presennol;
 - codi tua 6.9 cilomedr o draciau mynediad ar y safle i hwyluso'r gwaith o adeiladu'r fferm wynt ac ehangu tua 9.5 cilomedr o draciau ffermio/ralïo sy'n bod yn barod i isafswm o 5m;
 - agor ffosydd a gosod ceblau tanddaearol ar gyfer cyflenwi a dosbarthu'r trydan a gynhyrchir a gwaith cyfathrebu a monitro ar y safle;
 - adeiladu is-orsaf drydanol 33kV/132kV (maint cyffredinol bras o tua 58m x 35m) ac offer cysylltiol, i'w lleoli ar y maes parcio presennol;
 - y posibilrwydd o godi canolfan cymysgu concrit dros dro ar y safle er mwyn hwyluso'r gwaith o adeiladu sylfeini'r tyrbinau;
 - codi 27 tyrbîn gwynt, gan gynnwys gwaith cloddio ar gyfer sylfeini'r tyrbinau;
 - gosod mast metereolegol, ag iddo uchder o 80m; ac
 - ailosod y darnau tir a effeithir wrth godi canolfan dros dro'r contractwr a'r ganolfan cymysgu concrit.
32. Hefyd, ac fel yr esboniwyd ar y dechrau, mae'n debyg y bydd yr awdurdodau trafndiaeth perthnasol yn mynnu fod rhaid gwneud peth mân waith priffyrdd er mwyn hwyluso'r gwaith o gludo llwythi anarferol i'r safle, sef yn benodol felly addasiadau i gelfi stryd ac ymestyn tair cilfan ac adeiladu dwy gilfan newydd,. Yn unol â'r drefn arferol trefnir yr hawlenni ar gyfer hyn, ynghyd â'r rhwymedigaethau, o dan Adran 278 Deddf Priffyrdd 1980.
33. At ddibenion yr asesiad trafndiaeth rhagdybir y bydd yr holl gerrig sydd eu hangen yn cael eu cludo i'r safle ac y bydd yr holl goncrit yn cael ei gyflenwi wedi'i gymysgu'n barod o gyfleusterau cynhyrchu lleol oddi ar y safle. Mae hyn yn cynnig y darlun gwaethaf posib ar gyfer ystyried symudiadau trafndiaeth ac yn sgîl hynny'r effaith ar y rhwydwaith trafndiaeth. Cyn cychwyn y gwaith adeiladu, mae'n debyg y gwneir cais i godi gwaith sypynnu concrit ar y safle er mwyn lleihau rhywfaint ar symudiadau cerbydau. Disgwylir y bydd angen uchafswm o tua 14,800 o symudiadau cerbydau nwyddau trwm (HGV) i'r safle yn ystod cyfnod adeiladu'r fferm wynt. Byddai staff yn teithio i'r safle ac oddi arno trwy ddefnyddio cyfuniad o geir a bysiau mini, a disgwylir cyfanswm symudiadau o tua 12,600. Yn ystod y cyfnod adeiladu, byddai'r cynnydd yn lefelau traffig ar y darn o ffordd a effeithid waethaf yn llai na 2%.

Dadgomisiynu

34. Disgwylir i'r fferm wynt fod yn weithredol am 25 mlynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwn cymerid penderfyniad naill ai i ddyrchwyl y tyrbinau neu i ofyn am ganiatâd i'w hadnewyddu neu eu newid.

35. Gan ragdybio eu bod yn cael eu dymchwel, byddai Cynllun Dadgomisiynu'n cael ei baratoi a'i gyflwyno 12 mis cyn i'r gwaith gychwyn, i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
36. Bydd dadgomisiynu'r fferm wynt yn cynnwys dymchwel a gwaredu'r holl ddarnau gweladwy. Byddai darn uchaf y sylfeini concrit yn cael eu gwaredu a'u gorchuddio gyda 500mm o isbridd ac uwchbridd, heb adael unrhyw ôl o'r tyrbinau a gwneud yr ardal yn addas i'w hail-ddefnyddio yn y dyfodol.

ASESU'R EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Cyflwyniad

37. Oherwydd maint a lleoliad y prosiect, mae angen asesiad effaith amgylcheddol. Cynhaliwyd hwnnw yn unol â gofynion Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Aseiad Effaith Amgylcheddol) 2009. Er mwyn asesu effeithiau cynhaliodd Mynydd y Gwynt Ltd astudiaethau ac asesiad manwl o'r cynllun yn y meysydd canlynol:

Tirlun
 Sŵn
 Cysgodion Symudol
 Ecoleg ac Ornitholeg
 Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol
 Traffig a Thrafnidiaeth
 Effeithiau Daearegol, Hydrolegol a Hydrodaearegol
 Signalau electromagnetig
 Cymdeithasol-economaidd
 Cysylltu â'r Grid

38. Cynhaliwyd yr asesiad ar gyfer pob maes gan arbenigwyr technegol ac esbonnir canlyniadau eu hastudiaethau yn y paragraffau canlynol.


Effeithiau tirlun

39. Er mwyn ystyried effeithiau tebyg y fferm wynt ar y tirlun a'r amwynder gweledol, cynhaliwyd asesiad tirlun ac effaith gweledol ("LVIA") ar lecyn 30 cilomedr radiws ar y safle.
40. Mae'r LVIA yn cynnwys dwy elfen:
- yr asesiad o gymeriad y tirlun, sy'n ymwneud ag adnabod ac asesu pwysigrwydd y nodweddion tirluniol; a'r
 - asesiad gweledol, gan ystyried i ba raddau mae'r fferm wynt arfaethedig yn weledol, canfyddiad gwylwyr a'r derbynyddion gweledol sensitif.
41. Cafodd gosodiad a lleoliad y datblygiad ei ystyried yn sensitif o ran cymeriad y tirlun cyfagos. Er mwyn lleihau'r effaith ar y tirlun, cafodd uchder y tyrbinau ei leihau o 133.5 i'r llafn i 125m.
42. Mae'n anorfod y byddai codi'r tyrbinau a'r seilwaith cysylltiol yn cael cryn effaith ar y tirlun lleol a chymeriad y safle. Byddai'r effaith yn parhau trwy gydol cyfnod gweithredol y fferm wynt (h.y. 25 mlynedd) a chaiff ei ddadwneud wrth ddadgomisiynu.

43. Byddai'r canfyddiad o gymeriad tirluniol y tirlun cyfagos hefyd yn newid. Yn naturiol, wrth symud yn bellach oddi wrth y safle, felly hefyd y mae'r effaith yn lleihau, a byddai effeithiau arwyddocaol yn cael eu profi hyd at 6.5 cilomedr o'r safle. Daeth yr asesiad i'r casgliad fod y datblygiad yn gweddu'n dda i gymeriad tirluniol y safle fel y mae a'r canfyddiad o'r tirlun, ac na fydd yn cael effaith andwyol ar gymeriad y tirlun isranbarthol nac ar amrywiaeth cymeriad y tirlun y tu hwnt i'r cyd-destun lleol.
44. Dangosodd yr asesiad gweledol, ac eithrio rhai tai ym Mhant Mawr, na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol ar drefi neu bentrefi, dynodiadau tirluniol na defnyddwyr trenau. Chwecch anedd-dy cyfranogol yn unig a dim un anedd-dy anghyfranogol fyddai'n cael eu heffeithio'n arwyddocaol, ond ni fyddai'r effeithiau ar yr anedd-dai hyn yn ormodol. Byddai effeithiau arwyddocaol ar gyfleusterau hamdden ac i ymwelwyr yn gyfyngedig i lefel uwch a ffordd fynediad safle picnic Coedwig Hafren, a darn byr 300m o'r llwybr rhwng Llwybr Dyffryn Gwy a Llwybr yr Hafren. Mae effeithiau arwyddocaol hefyd yn debygol ar ddarnau o rai llwybrau e.e. ffyrdd; llwybrau seiclo Sustrans a llwybrau cerdded hirbell o fewn 3.5 cilomedr i'r safle a llwybrau cerdded/ceffylau cyhoeddus o fewn 1.8 cilomedr.

Asesiad Cronnus Tirlun ac Effaith Gweledol ("CLVIA")

45. Mae hwn yn asesu effaith y datblygiad o'i gyfuno â ffermydd gwynt eraill, sydd naill ai'n bod yn barod neu yn yr arfaeth, o fewn 60 cilomedr i'r safle.
46. Roedd y fethodoleg ar gyfer cynnal yr asesiad cronnus yn seiliedig ar ganllawiau Scottish Natural Heritage a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2005 (a ddefnyddiwyd gan nad oes canllawiau cyfatebol ar gael yng Nghymru). Mae'r dull yn golygu ystyried yr effaith gronrus ar gymeriad y tirlun ac ystyried effaith golygfeydd cyfunedig neu ddilyniannol ar bobl yn byw, gweithio, mwynhau neu deithio trwy'r ardal.
47. Er y dynodwyd 35 o ffermydd gwynt (neu estyniadau i gynlluniau presennol) o fewn 60 cilomedr, penderfynodd yr asesiad mai naw yn unig o'r ffermydd gwynt hyn sydd â'r potensial i greu effeithiau cronrus gyda Mynydd y Gwynt.
48. Dangosodd yr asesiad, er y ceid rhai effeithiau cronrus ar ardaloedd wyneb-wedd o fewn 10 cilomedr i'r safle, o gwmpas tarddiad yr Afon Hafren, y byddai'r unig effaith o bwys ar ardal wyneb-wedd Pumlumon. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw effeithiau cronrus ar unrhyw ddynodiadau tirluniol fel Parc Cenedlaethol Eryri..
49. Ceid effeithiau cronrus hefyd ar ffyrdd a llwybrau hirbell fel y B4518 a Llwybr Glyndŵr, ond byddai'r unig effeithiau arwyddocaol ar ddarnau o Llwybr yr Hafren (450m), Llwybr Dyffryn Gwy (5.8 cilomedr) a Llwybr Cambrian (6.7 cilomedr). Mae'r llwybrau hyn yn cael eu heffeithio gan dyrbinau yn barod.
50. Gwelwyd effeithiau gweledol o bwys o rai hawliau tramwy cyhoeddus cyfagos ac o chwecch anedd-dy yn agos iawn at y safle. Fe'u cofnodwyd hefyd ar gyfer traffig ar ddarnau byr o'r ffyrdd dosbarth A a B cyfagos a ffyrdd lleol di-ddosbarth lleol cyfagos. Oherwydd maint y tirlun, nid yw'r effeithiau ar gymeriad y tirlun yn cael eu hystyried yn rhai arwyddocaol, ac eithrio o fewn y safle ei hun.



Golygfannau

Effeithiau Sŵn

Sŵn Gweithredol

51. Mae'r asesiad hwn yn rhagweld pa lefelau sŵn a brofir yn yr eiddo preswyl agosaf pan mae'r tyrbinau'n gweithio. Cyflwynir y meini prawf a'r canllawiau asesu priodol ar gyfer fferm wynt yn adroddiad 1996 gan ETSU (ETSU-R-97). Dywed hwnnw na ddylai lefel y sŵn o fferm wynt yn ystod y dydd fod yn fwy na 5 desibel yn uwch na sŵn cefndir, neu derfyn is diwahân o fewn 35-40 desibel, pa un bynnag sydd uchaf. Gyda'r nos dylid cyfyngu'r meini prawf i 5 desibel yn uwch na sŵn cefndir neu 43 desibel, pa un bynnag sydd uchaf. Pan mae gan breswlydd yr eiddo ryw gysylltiad ariannol â'r fferm wynt, codir y terfyn liw ddydd a liw nos i 45 desibel. Cymeradwyir y dynesiad hwn gan bolisiau perthnasol. Rhoddwyd ystyriaeth i ganllawiau arfer da eraill a ddarparwyd ac a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Acwsteg ym mis Mai 2013 wrth gynnal yr asesiad.
52. Cymerwyd mesuriadau sŵn yn ystod diwedd yr haf 2013.
53. Mesurwyd sŵn cefndir ar gyflymderau gwynt gwahanol. Gwelwyd y byddai ystod lefel sŵn cyfartalog ar ffiniau'r eiddo agosaf rhwng 29.7 a 38 desibel yn nodweddiadol ar gyflymderau gwynt isel yn ystod y dydd, a 36 i 44 desibel yn ystod cyflymderau gwynt uwch. Byddai'r lefelau sŵn a ragfynegir pan fyddai'r tyrbinau gwynt yn gweithio yn yr eiddo agosaf o fewn meini prawf sŵn liw ddydd yr ETSU-R-97, sef 35 – 40 desibel neu 5 desibel yn uwch na sŵn cefndir.
54. Byddai'r lefelau sŵn a ragfynegir yn is na meini prawf yr ETSU ar gyfer sŵn liw nos ym mhob safle. Hefyd, mae cymharu'r lefelau sŵn a ragfynegir gyda lefelau'r sŵn gweddilliol a fesurwyd yn dangos fod sŵn y fferm wynt ym mhob safle yn gyffredinol is na'r sŵn gweddilliol ar hyn o bryd ar y cyflymderau gwynt ac o'r cyfeiriadau mwyaf sensitif.
55. Bernir felly y bydd y sŵn pan fydd y fferm wynt yn weithredol o fewn terfynau derbyniol ym mhob anedd-dy perthnasol.

Sŵn yn ystod y Gwaith Adeiladu

56. Yn ystod y cyfnod adeiladu, fe fydd nifer o weithgareddau gwahanol, y cyfan ohonynt yn parhau am gyfnodau byr iawn yn safle pob tyrbina. Unwaith eto, cynhaliwyd cyfrifiadau o'r sŵn a gynhyrchir yn y manau agosaf at eiddo, gan ddefnyddio'r fethodoleg a nodir yn BS 5228: Rhan 1, 1997.
57. Dangosodd canlyniadau'r cyfrifiadau na fyddai'r lefelau sŵn a gynhyrchir yn ystod y cyfnod adeiladu yn arwyddocaol yn yr eiddo agosaf a hyd yn oed ar eu huchaf y byddent yn gyfforddus o fewn lefel y sŵn sydd fel arfer yn cael ei ystyried yn dderbyniol ar gyfer gweithgarwch o'r math a'r hyd hwn.

Effeithiau Cysgodion Symudol

58. Mae 'cysgodion symudol' yn cyfeirio at y cysgodion a wneir gan lafnau rotor wrth iddynt basio ffenestr. Gall hyn greu niwsans, yn enwedig felly pan mae'r haul yn isel yn yr awyr a'r cysgod yn cael ei fwrw dros ffenestri eiddo preswyl. Penderfynodd yr asesiad y gallai un eiddo gael ei effeithio gan dyrbinau 11 a 12 ac mae'n dangos y posibilrwydd y gallai fynd dros y gwerthoedd trothwy derbyniol. Fodd bynnag, ni allai hynny ond digwydd os yw coed rhwng yr eiddo a'r tyrbinau yn cael eu torri yn ystod oes y Fferm Wynt.

Crynodeb o Gamau Lliniaru.

59. Felly, pe bai niwsans yn cael ei achosi gan gysgodion symudol, awgrymir camau lliniaru trwy osod systemau rheoli cysgodion symudol ar dyrbinau 11 a 12. Byddai'r offer hwn yn atal y tyrbinau hyn os yw'n heulog ar yr adegau penodol pan allai cysgodion gael eu bwrw dros yr eiddo. Byddai'r camau hyn yn cael gwared â'r potensial o gysgodion symudol yn yr eiddo allai gael ei effeithio.

Effeithiau EcolegolYr Astudiaethau ac Arolygon

60. Cynhaliwyd arolygon ecolegol dros gyfnod maith a gychwynnodd yn 2004 ac a barodd tan 2014. Mae'r astudiaethau wedi cynnwys arolygon llystyfiant a dyfnder mawn; arolygon adar (adar bridio, golygfannau, Grugiar Ddu, Gïach, Gylfinir, arolygon mamaliaid (Ystlum, Dyfrgi, Llygoden y Dŵr a'r Mochyn Daear); Crothell (pysgodyn) ac arolygon ymlusgiaid. Cynhaliwyd yr arolygon wedi ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru a'r Gymdeithas Frenhinol ar gyfer Diogelu Adar (RSPB) a defnyddiwyd methodolegau safonol. Canllawiau'r Sefydliad Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (IEEM) ar asesiadau effaith oedd y prif ganllawiau a ddilynwyd wrth baratoi'r broses asesu.

Effeithiau Posib

61. Byddai'r rhan fwyaf o effeithiau ecolegol yn digwydd yn ystod y cyfnod adeiladu, er y bydd anhwylustod i adar a risg gwrthdrawiadau adar yn amlwg yn digwydd yn ystod cyfnod gweithredu'r fferm wynt. Daeth yr asesiad i'r casgliad, heb gamau lliniaru, y gallai arwain at yr effeithiau arwyddocaol posib a amlinellir isod:
- Colli cynefinoedd gwerthfawr o adeiladu ffyrdd, sylfeini tyrbinau a phadiau craeniau.
 - Effeithiau anuniongyrchol ar ddraeniad a achosir gan ffyrdd newydd allai effeithio'r cynefinoedd sy'n weddill trwy effeithio'r hydroleg bresennol a chyfansoddiad cemegol priddoedd.
 - Effeithiau anuniongyrchol ar ansawdd dŵr yn yr Afon Gwy (River Wye) a achosir gan waddodi a llygredd o weithgareddau adeiladu, allai effeithio adar a dyfrgwn.
 - Effeithiau anuniongyrchol a achosir gan anhwylustod i ddyfrgwn a bywyd gwylt.
 - Colli cynefinoedd mawn dwfn.
 - Perygl gwrthdaro i adar ac anhwylustod i adar nythu.
 - Perygl gwrthdaro i ystlumod.

Crynodeb o Effeithiau a Chamau Lliniaru*Cynefinoedd*

62. Cafodd y gosodiad ei fireinio i leihau'r effaith ar gynefinoedd heb eu gwella ac ardaloedd mawn dwfn. Fodd bynnag, fe gollir rhai cynefinoedd gorgors heb eu haddasu, rhostir

prysgwydd isel sych a rhostir prysgwydd isel gwlyb. Byddai adeiladu'r fferm wynt yn golygu colli'n barhaol tua 9.36ha o gynefinoedd a cholli dros dro 9.85ha o gynefinoedd yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae'r ardal fwyaf o golled dros dro o dipyn gyfagos i'r traciau presennol a newydd (7.75ha). Mae'n debyg na chaiff llawer o'r ardal hon ei datblygu, ond fe'i cynhwyswyd gan y gallai cydrannau trafnidiaeth fynd dros y tir, ond heb ei newid yn ffisegol. Fodd bynnag, nid oes modd bod yn bendant am union ardal y golled ar hyn o bryd, ac felly fe gynhwyswyd yr ardal gyfan. Mae'r tabl isod yn cynnig crynodeb o golled fras y cynefinoedd mwy gwerthfawr ar y safle.

Colli Cynefinoedd Gwerthfawr Uniongyrchol (Cyfanswm arwynebedd = 584ha)		
Math o Gynefin	Colled Parhaol (ha)	Colled Dros Dro yn ystod yr Adeiladu (ha)
Rhostir corlwyn asid sych	0.03	0.13
Gwern gorgors	0.08	0.24
Rhostir corlwyn gwlyb	0.99	1.11
Cors wlyb wedi'i addasu	2.92	2.52

63. Gan fod y golled barhaol yn cynrychioli cyfran fechan (llai na 2%) o'r cynefinoedd mwyaf sensitif ar y safle mae hon yn cael ei hystyried yn effaith fach andwyol. Byddai'r effeithiau yn cael eu lliniaru ymhellach trwy ficroleoli tyrbinau i ffwrdd o ardaloedd dwfn mawn a chynefinoedd gwerthfawr. Mae llawer o'r cynefin gwern a rhostir gwlyb mewn cyflwr gwael ac fe'i cynllunnir trwy Gynllun Rheoli Cynefin (HMP) er mwyn gwella ansawdd cynefin rhai o'r ardaloedd hyn. Gallai hynny olygu camau lliniarol addas ar gyfer unrhyw gynefinoedd a gollir. Byddai dwysáu amaethyddol hefyd yn cael ei atal trwy gynnwys camau penodol yn yr HMP.
64. Mae gan y datblygiad y potensial i greu effeithiau anuniongyrchol ar gynefinoedd trwy addasu'r hydroleg a pH y cynefinoedd amgylchynol, gwaddodi, mawn yn methu a llygredd. Byddai'r perygl y gallai'r effeithiau hyn ddigwydd yn cael ei leihau trwy'r camau mewn Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) a Chynllun Rheolaeth Dŵr Wyneb (SWMP) ac o'r herwydd felly mae arwyddocâd y risg yn fach.
65. Mae gan y cyrsiau dŵr ar y safle y potensial hefyd i gael eu heffeithio'n anuniongyrchol trwy waddodi a llygredd. Gellir osgoi hyn trwy reolaeth ofalus ar y gwaith adeiladu ac fe gynhwysir camau penodol i'r perwyl hwn yn y CEMP a'r SWMP. Trwy gymryd y camau diogelu arfaethedig, byddai'r effaith andwyol potensial ar y cyrsiau dŵr yn Ardal yr Astudiaeth yn fach.
66. Mae tri Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI) o fewn 3 cilomedr i'r safle, ac mae un ohonynt, yr Afon Gwy (River Wye), hefyd yn Ardal Cadwraeth Arbennig (SAC).
67. Ni ragwelir unrhyw effeithiau uniongyrchol ar yr SSSI a'r SAC. Mae gan y datblygiad y potensial i gael effaith anuniongyrchol ar SSSI/SAC yr Afon Gwy (River Wye) trwy waddodi a llygredd. Trwy gymryd y camau diogelu a gynhwysir yn y CEMP a'r SWMP nid yw'n debygol y bydd unrhyw effaith ar SSSI/SAC yr Afon Gwy (River Wye).

Adar

68. Cofnodwyd hanner cant o rywogaethau o adar yn yr arolwg adar heb fod yn bridio, 28 o rywogaethau o adar yn yr arolwg adar bridio a 10 o rywogaethau o adar yn yr arolwg adar mudol yn ystod arolygon adar 2004-2005. Yn ystod arolwg adar heb fod yn bridio 2010-2011 cofnodwyd cyfanswm o saith 'Rhywogaeth o Bryder Cadwraethol'. Canfu Arolygon Adar Bridio a gynhaliwyd yn 2010 gyfanswm o saith 'Rhywogaeth o Bryder Cadwraethol'. Mae'r safle'n cynnal o leiaf un pâr o Giach bridio ac un i ddau bâr o Grugieir Coch. Gwelwyd fod y safle'n cynnal dau i dri pâr o Gylfinir bridio yn ystod arolwg 2005 ond ni chofnodwyd unrhyw Gylfinir yn ystod arolwg adar bridio 2010 a'r arolygon VP. Cofnodwyd cyfanswm o saith Rhywogaeth o Bryder Cadwraethol o blith y rhywogaethau targed yn ystod arolygon VP Tachwedd 2009 i Dachwedd 2010.
69. Heb gymryd unrhyw gamau lliniaru, gallai'r datblygiad arwain at ddisodli Giach bridio. Symudwyd tyrbinau er mwyn osgoi eu hardaloedd bridio, a bwriedir cynnal rhagor o arolygon er mwyn dynodi ardaloedd bridio cyn cychwyn y gwaith adeiladu, fel y gellir microleoli tyrbinau yn ddigon pell o'r ardaloedd hynny. Mewn ardaloedd o'r fath, os yn ymarferol, byddai'r gwaith adeiladu yn cychwyn y tu allan i dymor bridio Mawrth i Awst. O'r herwydd, mae arwyddocâd yr effaith andwyol potensial yn cael ei leihau i gymedrol / bach.
70. Cynhaliwyd asesiadau risg gwrthdaro ar y ddau 'Rywogaeth o Bryder Cadwraethol' y gwelwyd eu bod yn defnyddio'r safle'n rheolaidd, sef y Cornicyll Aur a'r Barcud Coch. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu fod yna risg y gallai 1.79 Barcud Coch wrthdaro â rotor tuag unwaith bob blwyddyn ac 1.84 Cornicyll Aur bob blwyddyn. Gan y byddai'r gyfradd marw ar gyfer y Barcud yn cyfateb i lai na degfed ran o un y cant o boblogaeth Cymru, sy'n dal i gynyddu, nid oedd yr effaith hwnnw'n cael ei ystyried yn un arwyddocaol. Yn yr un modd, gan y byddai'r cynllun yn effeithio ychydig dros ganfed rhan o un y cant o boblogaeth aeaf y Cornicyll Aur, nid oedd yr effaith hwnnw'n cael ei ystyried yn un arwyddocaol.

Mamaliaid, Ymlusgiaid, Amffibiaid a Physgod

71. Mae'n ymddangos fod ystlumod yn cymudo ar draws y safle, ar lefel isel trwy ddefnyddio'r afonydd a'r nentydd sy'n rhedeg o'r tir uchel i lawr Dyffryn Gwy, ac yn porthianna dros ddŵr a llecynnau coediog bychain ar hyd y daith. Gwelwyd y rhan fwyaf o ystlumod o gwmpas canol y safle ac roeddent yn gysylltiedig ag isafonydd Dyffryn Gwy a lleoliadau cysgodol ar ymylon coedwigoedd. Mae dwy geuffordd cloddfeydd yn cynnal niferoedd bychain o ystlumod Natterer ac efallai Daubenton heidiol. Mae'r ddwy geuffordd ar ymylon gorllewinol Ardal yr Astudiaeth, tua 400m o'r tyrbinau arfaethedig agosaf.
72. Ni fyddai unrhyw safleoedd clwydo posib na choed na chyrsgiau dŵr a ddefnyddir gan ystlumod cymudol yn cael eu colli. Gan fod uchder hedfan cyffredinol ystlumod ar draws y safle yn is nac arwynebedd llafnau'r tyrbinau ar eu lletaf, nid yw risg gwrthdaro yn debygol. Fodd bynnag, lleolid y tyrbinau o leiaf 50m o ymyl ardal y llafn ar ei letaf i nodweddion cynefinoedd sy'n gysylltiedig â phorthianna. Mae'n debyg y bydd arwyddocâd yr effaith ar ystlumod yn fychan andwyol.
73. Mae moch daear yn defnyddio'r safle i borthianna a daethpwyd o hyd i un set weithredol o fewn y safle a dwy set ychydig y tu allan iddi, un ohonynt yn debygol o fod yn weithredol a'r llall yn anweithredol. Gwelwyd fod dyfrgwn yn defnyddio'r safle ar gyfer porthianna, ond roedd yr holl weithgarwch bron oddi ar y llwyfandir lle y bydd y rhan fwyaf o'r datblygiad yn digwydd: cofnodwyd baw anifeiliaid ar hyd yr Afon Gwy (River Wye), y tu allan i ardal y cais, ac yn Nant Iago, Nant y Gwrddy, Afon Bidno a Nant Cwm-y-Foel. Yn ystod 2009

cadarnhawyd fod llygod dŵr yn bresennol a gweithredol ar ddwy o isafonydd yr Afon Gwy (River Wye) ac ar yr Afon Gwy (River Wye) ei hunan. Mae'n debyg fod llygod dŵr ar y safle'n rhan o feta-boblogaeth (grwpiau bychain, lleol sy'n rhyngweithio â'i gilydd), yn seiliedig ar yr Afon Gwy (River Wye), yn defnyddio cynefinoedd sy'n addas ond nid yn bwysig ar hyd yr isafonydd. Mae'r poblogaethau hyn i'w gweld ar hyd y nentydd bychain pan mae poblogaethau'n cynyddu. Cafwyd tri chofnod o Ysgyfarnogod Brown. Cafwyd cofnodion o Fadfallod Cyffredin a gwelwyd tair ardal fyddai'n gwneud cynefinoedd addas i ymlusgiaid ar y safle ac un ychydig y tu allan i'r safle. Fodd bynnag, dim ond un cofnod a gafwyd yn ystod arolwg ymlusgiaid targed 2010. Cofnodwyd dwy Fadfall Ddŵr Balfaid ger nentydd. Er gwaethaf cryn chwilio am gynefinoedd addas, ni chafwyd unrhyw gofnodion o Fawd y Melinydd.

74. Gallai'r datblygiad arwain at golli ardaloedd cymharol fychan o gynefinoedd Llygod Dŵr. Byddai'r perygl y gallai llygredd effeithio cyrsiau dŵr yn cael ei leihau trwy'r camau a gynhwysir yn y CEMP a'r SWMP a bernir fod yr effaith ar Lygod Dŵr yn fach. Dylai'r effaith ar Ddyfrgwn, trwy aflonyddwch, fod yn gymhedrol / fach andwyol.
75. Credir nad yw Dyfrgwn ond yn defnyddio'r safle ar gyfer porthianna ac ni chredir y collir llawer o gynefinoedd Dyfrgwn gan fod y datblygiad yn osgoi cyrsiau dŵr ble bynnag y bo modd. Byddai aflonyddwch yn cael ei gyfyngu trwy reoli oriau gwaith y cyfnod adeiladu. Gallai Dyfrgwn gael eu heffeithio'n anuniongyrchol hefyd trwy lygru cyrsiau dŵr. Byddai'r perygl y gallai hynny ddigwydd yn cael ei leihau trwy'r camau a gynhwysir yn y CEMP a'r SWMP.

Safleoedd Dynodedig

76. Mae'r safle'n agos at Safle Cadwraeth Arbennig yr Afon Gwy (River Wye) a 7 cilometr o Ardal Diogelwch Arbennig Elenydd Mallaen a 4 cilometr o'r SAC. Er bod gan yr Afon Gwy (River Wye) y potensial i gael ei heffeithio yn ystod y gwaith adeiladu, casgliad yr asesiad sgrinio oedd y dylai'r camau lliniaru a fwriedir i atal gwaddodi, llygrion a dŵr gormodol rhag cyrraedd yr afon sicrhau na fydd unrhyw effaith arwyddocaol i'r Afon Gwy (River Wye).
77. O ran SPA a SAC Elenydd Mallaen ni chredir y byddai unrhyw effaith arwyddocaol naill ai'n unigol neu ar y cyd â chynlluniau eraill.

Camau Lliniarol Eraill

78. Bwriedir cynnal arolygon wedi'u targedu cyn cychwyn ar y gwaith adeiladu er mwyn dynodi rhywogaethau gwarchoddedig fel Moch Daear, Dyfrgwn, Llygod Dŵr a rhydwyf fel y gellid cymryd camau lliniaru addas. Yn seiliedig ar yr arolygon hyn, byddai camau lliniaru yn cael eu cynnwys i sicrhau nad oes unrhyw effaith o bwys ar y rhywogaethau perthnasol. Cynhyrchwyd Cynllun Diogelu Rhywogaethau drafft sy'n cynnwys camau fel amseru'r gwaith a chyfyngiadau cyflymdra er mwyn lleihau effeithiau ar rywogaethau gwarchoddedig. Cynhwysir cynigion monitro yn yr HMP. Yn benodol, byddai gwaith monitro a gwylidwriaeth yn ystod ac ar ôl y cyfnod adeiladu yn cael ei wneud ar gyfer y Barcud Coch fel yr awgrymwyd gan CNC.
79. Wrth gerdded dros y cilfannau arfaethedig ar y llwybr trafndiaeth adeiladu daethpwyd o hyd i gynefinoedd posib i ymlusgiaid, er na chofnodwyd unrhyw ymlusgiaid fel y cyfryw. Er mwyn diogelu ymlusgiaid byddai'r safleoedd yn cael eu chwilio cyn cychwyn ar y gwaith

adeiladu gan ecolegydd cymwys, ac fe gynhelir rhaglen ofalus o glirio llystyfiant er mwyn osgoi niwed i ymlusgiaid.

Effeithiau ar Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol

80. Roedd yr asesiad hwn yn cynnwys chwiliad llenyddiaeth ac adolygiad o brif ffynonellau data hanesyddol, ynghyd ag arolwg cerdded dros ardal arfaethedig y cais, yn ogystal ag ardaloedd y cilfannau arfaethedig ar gyfer y llwybr trafndiaeth adeiladu. Defnyddiwyd mapiau a delweddau cyfrifiadurol i efelychu'r fferm wynt wrth lunio'r asesiad, oedd yn gydnaws â methodoleg ASIDOHL (Aseiad o Arwyddocâd Datblygiad ar Dirlun Hanesyddol).
81. O fewn 10 cilomedr ardal yr astudiaeth, canfu'r ymchwiliadau;
- 18 o Henebion Rhestredig (SAM) o fewn 5 cilomedr i safle'r fferm wynt, 8 ohonynt yn rhai allai gael eu heffeithio'n anuniongyrchol gan fod y datblygiad i'w weld ohonynt.
 - Nad oedd unrhyw adeiladau rhestredig, parciau cofrestredig nac ardaloedd cadwraeth sy'n debygol o brofi effeithiau gweledol.
 - Amrywiaeth o asedau gwerth is o fewn y safle.
 - Dyddodion mawn allai gynnwys tystiolaeth balaeoamgylcheddol.
 - Fod y safle gyfagos i Dirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Nodedig Ucheldir Ceredigion ac yn agos at ddau Dirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig, Dyffryn Clywedog a Chwm Elan.

Crynodeb o Effeithiau a Chamau Lliniaru

82. Trefnwyd gosodiad y datblygiad er mwyn osgoi nodweddion archaeolegol ar y safle lle bynnag y bo modd.
83. Mae rhai o'r traciau presennol yn pasio'n agos at nodweddion ag iddynt werth isel i ganolig. Bydd y rhain yn cael eu ffensio yn ystod y gwaith adeiladu er mwyn osgoi unrhyw ddifrod damweiniol.
84. Mae'n bosib fod y dyddodion mawn ar draws yr ardal yn cynnwys tystiolaeth balaeoamgylcheddol (tystiolaeth sy'n awgrymu amodau amgylcheddol yn y gorffennol) yn ogystal â chuddio dyddodion archaeolegol gwaelodol a fyddai, os ydynt yno, yn debygol o fod yn gynhanesyddol. Cynhaliwyd arolygon dyfnder mawn ac fe addaswyd y cynllun er mwyn lleoli tyrbinau a datblygiadau ategol i osgoi mawn dwfn lle bynnag y bo modd. Er hynny, bydd unrhyw waith fydd yn golygu symud dyddodion mawn yn cael ei liniaru gan raglen o fonitro archaeolegol yn ystod y cyfnod adeiladu. Bydd rhaglen o samplio mewn ardaloedd lle y mae gwaith adeiladu yn tarfu ar ddyddodion mawn sy'n ddyfnach na 0.5m hefyd yn cael ei chynnal. Er mai'r nod yw defnyddio mawn wedi'i gloddio er mwyn atal rhagor o ddifrod i ynysoedd mawn ar y safle, efallai y bydd rhai dyddodion yn dal i gael eu symud oddi ar y safle, bydd yr wybodaeth a gynhwysir ynddynt yn cael ei chadw trwy ei chofnodi ac yn cael ei hastudio, gan wella ein dealltwriaeth o esblygiad defnydd tir yn yr agwedd hon nad oes gennym fawr ddim dealltwriaeth ohoni.

85. Mae 18 o Henebion Rhestredig (SAM) o fewn 5 cilomedr i safle'r fferm wynt. Ni fydd y fferm wynt yn weledol o gwbl o 8 ohonynt, ac o'r 10 arall bydd yr effaith mwyaf ym Mwyngloddiau Nant yr Eira, ond nid yw'r effaith yn cael ei ystyried yn un arwyddocaol). Nid yw'r datblygiad mewn tirlun hanesyddol dynodedig, ond mae gyfagos i Dirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Nodedig Ucheldir Ceredigion ac yn agos at ddau Dirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig, Dyffryn Clywedog a Chwm Elan, a bydd i'w weld i raddau gwahanol o'r tirluniau hyn. Yn seiliedig ar broses ASIDOHL, bydd yr effaith anuniongyrchol ar Dirluniau Hanesyddol Dyffryn Clywedog a Chwm Elan yn fychan andwyol, ac ar Dirlun o Ddiddordeb Hanesyddol Nodedig Ucheldir Ceredigion bydd yr effaith yn fach / cymedrol andwyol.
86. Mae'r effeithiau gweledol ar leoliadau yn rhai y gellir eu dadwneud a deuant i ben pan mae'r tyrbinau a'r adeiladweithiau cysylltiol yn cael eu symud o'r safle ar ôl dadgomisiynu, a chaiff yr ardal ei hail-integreiddio i dirlun gweundir yr ucheldir.

Effaith Trafnidiaeth

87. Cynhaliwyd asesiad o effeithiau posib y traffig sy'n gysylltiedig â datblygiad yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredu a dadgomisiynu.
88. O blith y tri chynnod gweithredol, cyfyngir y cyfnod gweithredu i waith cynnal a chadw sy'n cynhyrchu llawer llai o draffig, nad yw'n cael ei ystyried yn uwch na lefelau amrywiol traffig dyddiol ar y rhwydwaith ffyrdd.
89. Mae'r cyfnod dadgomisiynu yn cynnwys llai o deithiau ar y rhwydwaith na'r cyfnod adeiladu gan fod elfennau o seilwaith fel traciau mynediad yn aml yn cael eu gadael lle y maent.
90. Mae'n dilyn felly mai'r cyfnod mwyaf dwys yw'r cyfnod adeiladu, ac o'r herwydd canolbwyntiodd yr asesiad ar yr elfen honno. Fodd bynnag, dylid cofio fod yr effeithiau adeiladu yn rhai dros dro a byrhoedlog iawn. Rhagwelir y bydd yr effeithiau traffig adeiladu trymaf yn digwydd ym mis 8 y prif gyfnod adeiladu o tua 13 mis. Yn ystod y mis hwn, rhagwelir cyfartaledd o 143 symudiad bob dydd.
91. Amcangyfrifwyd y byddai'r traffig ychwanegol yn ystod y cyfnod adeiladu yn arwain ar ei waethaf at gynnydd cyfartalog o 1.91% ar y llinfau 12 awr presennol ar hyd yr A44 i'r gorllewin o Langurig. Nid yw hyn yn cael ei ystyried yn arwyddocaol.
92. Edrychodd yr asesiad hefyd ar effaith gyfunedig bosib codi fferm wynt Mynydd y Gwynt ar yr un pryd â fferm wynt Nant y Moch a gynigiwyd yn gynt ond nad yw'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd.
93. Pe bai'r effaith yn cael ei asesu ar y cyd â fferm wynt Nant y Moch, y cynnydd gwaethaf posib fyddai 5.0%. Yn y naill sefyllfa a'r llall ni ddisgwylir unrhyw faterion capasiti o bwys ar unrhyw un o'r ffyrdd o fewn ardal yr astudiaeth oherwydd y symudiadau traffig adeiladu ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad. Bydd effaith traffig adeiladu ar y rhwydwaith ffyrdd yn yr ardal yn fyrhoedlog ac ni ddisgwylir iddo fod yn arwyddocaol.

Effeithiau Daeregol, Hydrolegol a Hydroddaearegol

94. Mae'r adran hon yn delio â dosbarthiad, symudiad ac ansawdd dŵr daear yn y priddoedd a'r creigiau sy'n gysylltiedig â datblygu Fferm Wynt Mynydd y Gwynt. Roedd yr asesiad yn

cynnwys ymgynghori gyda chyrff statudol ac anstatudol, astudiaethau pen desg ac arolygon maes.

95. Y materion allweddol a nodwyd yn ystod y gwaith oedd:
- effeithiau ar nodweddion dŵr sensitif e.e. afonydd a nentydd;
 - effeithiau ar gyflenwadau dŵr preifat cyfagos;
 - effeithiau ar bysgodfeydd a chyrsgau dŵr;
 - mwy o ddŵr ffo,
 - effeithiau ar ddŵr wyneb; ac,
 - effeithiau ar fawn.
96. Mae'r effeithiau parhaol posib (y gellir eu lliniaru) yn cynnwys gwaddodion yn llygru cyrsiau dŵr, cemegau a metelau yn llygru cyrsiau dŵr a dŵr wyneb arwynebol ac addasiadau i amodau a llif draeniad, sy'n creu'r potensial o effeithiau eilaidd trwy i'r mawn sychu. Gan fod y safle yn nalgylchoedd dwy afon, mae potensial y gallai traciau newydd ddargyfeirio dŵr draeniad o un dalgylch i un arall.

Crynodeb o Gamau Lliniaru

97. Yr agwedd at liniaru oedd ceisio osgoi perygl effaith lle bynnag y bo modd. Lle'n bosib, cadwyd yr holl seilwaith 50m i fwrdd o gyrsiau dŵr. Yn gyffredinol, cafodd ardaloedd mawn dwfn eu hosgoi. Bydd traciau ar ardaloedd gwastad yn cynnwys ffosydd ymyriad dall er mwyn caniatáu i waddodion setlo ac i ddŵr lifo'n ôl i'r system dŵr wyneb. Bydd traciau ar lethrau serthach yn cynnwys ffosydd gorifyny wedi'u pibellu o dan y traciau i'r ochr isaf er mwyn caniatáu i ddŵr glân lifo'n ôl i'r llystyfiant. Bydd traciau ar lethrau serth yn defnyddio cymysgedd o ffosydd a maglau llaid a goferiad i byllau setlo newydd neu rai sy'n bod yn barod. Defnyddir pwll setlo newydd ger un tyrbîn er mwyn lleihau'r perygl y bydd gwaddodion yn llifo i gwrs dŵr.
98. Gallai'r datblygiad arwain at newidiadau i'r drefn hydrolegol trwy gynyddu ardal yr arwynebau anathraidd. Ceid cynnydd o 1.6% ac mae hyn yn cael ei ystyried yn effaith bychan. Gallai gosod traciau ychwanegol a sianelu cyrsiau dŵr ailgyfeirio llwybrau llif dŵr a blocio mân gyrsiau dŵr a draeniau. Heb reolaeth briodol gallai'r gwaith adeiladu arwain at erydu daear agored a chreu goferiad llawn llaid fyddai'n llifo yn y pendraw i gyrsiau dŵr cyfagos. Defnyddir maglau llaid i gael gafael ar solidau crog a gynhyrchwyd yn ystod y gwaith adeiladu, ynghyd os oes angen â phyllau gwaddodi ac ardaloedd gwanhau. Bwriedir codi pwll gwaddodi yn yr ardal i lawr yr afon o Dyrbin 27 er mwyn dal gwaddodion crog. Bydd yr offer adeiladu yn defnyddio tanwydd, olew a chemegau ac mae perygl felly y gallai cemegau a hydrocarbonau lygru cyrsiau dŵr a chynefinoedd. Trwy gymryd y camau diogelu a fwriedir, nid yw'r perygl y gallai hynny ddigwydd yn un arwyddocaol.
99. Mae'r camau diogelu hyn yn arfer da ond maent yn arbennig o bwysig i'r safle hwn er mwyn atal gwaddodion crog neu ollyngiadau damweiniol rhag llifo i mewn i afonydd Gwy a'r Hafren a'u hisafonydd. Bydd Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) fydd

yn ymgorffori Cynllun Rheoli Dŵr Wyneb (SWMP) yn cael ei gynhyrchu er mwyn lleihau perygl digwyddiadau o'r fath.

100. Bydd cyrsiau dŵr yn cael eu monitro cyn ac yn ystod y cyfnod adeiladu i sicrhau na cheir unrhyw effeithiau negyddol o bwys. Caiff y gwaith ei atal os gwelir unrhyw arwyddion o waddodi neu effeithiau eraill, er mwyn gallu ymchwilio'r sefyllfa a chymryd camau unioni priodol.
101. Bydd y camau lliniaru a gynigir yn sicrhau bod yr amgylcheddau dŵr wyneb a dŵr daear yn cael eu diogelu'n ddigonol rhag yr effeithiau posib a ddynodwyd, ac na fydd arwyddocâd yr effeithiau gweddilliol ond yn fychan. Hefyd, ni fernir fod unrhyw effeithiau cronus o bwys o ystyried y datblygiadau eraill yn yr ardal.

Effeithiau Signalau Electro-magnetig

102. Gall codi adeiladweithiau mawr darfu ar gyfathrebu llinell gweld a chreu ymyriant. Mae rhai mathau o offer radar yn gallu canfod tyrbinau, a gall hynny greu dryswch i weithwyr radar.
103. Ymgynghorwyd â chyrrff telegyfathrebu a hedfan ac ni ddaethpwyd ar draws unrhyw broblemau o bwys. Er na ragwelir unrhyw darfu ar signalau hedfan, byddai camau lliniaru generig yn cael eu cymryd e.e. gosod goleuadau rhwystr isgoch ar y prif dyrbinau, darparu manylion y datblygiad ar gyfer siartio ar fapiau hedfan. Er bod hynny'n annhebyg, pe bai'r Fferm Wynt yn digwydd creu problemau derbyniad teledu, mae gwahanol atebion technegol ar gael, gan gynnwys newid erialau a darparu gwasanaethau lloeren neu gebl ar gyfer y teuluoedd a effeithir.

Effaith cymdeithasol-economaidd

Creu swyddi a chyfleoedd hyfforddiant

104. Gan ddefnyddio nifer o ffynonellau dibynadwy, amcangyfrifir y gallai'r prosiect greu isafswm o 8.1 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn ystod ei oes. Roedd yr ystod yn amrywio yn ôl pa astudiaeth a ddefnyddid rhwng 8.1 a 27 o swyddi.
105. Er mwyn sicrhau bod y ffigwr hwn mor uchel ag y bo modd, bydd Mynydd y Gwynt yn cynnal dyddiau contractwyr i annog contractwyr lleol i gyflenwi'r prif gontractwr, ac i annog prif gontractwyr i gyflogi'n lleol.

Effaith Economaidd Lleol

106. Gan ddefnyddio data o adroddiad DECC / UK Renewables: Onshore Wind: Direct & Wider Economic Impacts; dangosir gwerth y buddion economaidd yn y tabl isod.

Cyfrannau Buddion Ynni Gwynt a Gedwir yn Lleol, yn y Rhanbarth/Cenedl, ac yn y DU						
Cyfnod	Gwariant wedi'i Bwysoli fesul MW	Lleol	Rhanbarth/Cenedl	DU	Buddion Lleol*	Buddion i Gymru*
Datblygu	£108,759	8%	41%	98%	£0.7 m	£3.6 m
Adeiladu	£1,182,612	7%	29%	45%	£6.7 m	£27.8 m
Cyfanswm y buddsoddiad cyfalaf*	£1,291,371	-	-	-	£7.4 m	£31.4 m

Ffynhonnell: DECC a RenewableUK (Mai 2012). Onshore wind Direct and wider Economic Impacts.

*Mae ein cyfrifiadau ein hunain yn seiliedig ar astudiaeth DECC a RenewableUK.

107. Bydd Mynydd y Gwynt yn sicrhau bod dulliau caffael yn cynnig y buddion mwyaf posib i gontractwyr lleol.

Crynodeb o effeithiau posib ar dwristiaeth

108. Yn ardal yr astudiaeth ceir nifer o atyniadau anffurfiol i ymwelwyr, llawer ohonynt yn gysylltiedig â cherdded ar deithiau pell dros y brynau, gweithgareddau beicio mynydd a hamdden ar hyd dyffrynoedd yr afonydd. Mae'r Ganolfan Ralió yn y safle yn gryn atyniad ynddi'i hun o fewn ardal yr astudiaeth. Ac eithrio hynny, yr unig atyniadau o bwys i ymwelwyr yng nghyd-destun y safle yw Coedwig Hafren a Llyn Clywedog.
109. Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth a archwiliwyd ar gyfer yr astudiaeth yn awgrymu nad yw twristiaeth leol wedi dioddef unrhyw effeithiau negyddol oherwydd y ffermydd gwynt sydd ar waith yng ngwledydd Prydain. Nid oes unrhyw dystiolaeth bendant fod datblygiadau ffermydd gwynt yn cael effaith gadarnhaol na negyddol ar lefelau twristiaeth.

Buddion Cymunedol

110. Addawodd Mynydd y Gwynt yn wreiddiol y byddai £2,000 y MW o gapasiti gosodedig yn cael ei dalu bob blwyddyn i gronfa gymunedol leol unwaith y dechreuodd gynhyrchu ynni. Er y bydd ffurf a natur y gronfa'n cael ei chytuno'n derfynol ar ôl ymgynghori â'r gymuned leol, fe'i trefnir mewn ffordd sy'n golygu y gellir gwneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael. Mae'n bwysig iawn nodi y caiff ei gweinyddu a'i rheoli'n lleol gan bobl leol. Yn dilyn ymgynghoriadau yn ystod yr haf 2013, mae Mynydd y Gwynt wedi addo codi'r ffigwr hwn i £3,500 y MW o gapasiti gosodedig.
111. Mae'n dilyn felly y byddai isafswm o £7m - £7.7m ar gael i brosiectau lleol dros oes y cynllun, cyfanswm allai gael ei gynyddu'n sylweddol iawn trwy wneud defnydd gofalus o arian cyfatebol.

Cysylltu â'r Grid

112. Gallai effeithiau defnydd tir gweddilliol a chymryd tir ddeillio o ddatblygu llwybr cysylltu â'r grid, gan gynnwys:
- Effeithiau dros dro ar gymryd tir yn deillio o waith adeiladu;
 - Effeithiau parhaol yn deillio o osod polion/tyrrau ar dir; ac

- Effeithiau anuniongyrchol ar dir yn yr ardal amgylchynol.

Crynodeb o effeithiau posib ar gyfer llwybr dewis 1

113. Dangosodd canlyniadau'r astudiaethau pen desg mai fod gwerth yr adnodd ecolegol ac archaeolegol o'r is-orsaf ar y safle i'r gyffordd gydag CC1 cyfryw fel na ddylid ystyried y buddiannau hyn yn rhwystr i ddatblygu ar yr amod fod y cynllunio'n sensitif i amgylchiadau lleol.
114. Dywed yr adroddiad strategol gan LUC ar gyfer y llwybrau cyswllt o SSA C i Gefn Coch a ddangosir ym mhara. 6.1 yr adroddiad Ecoleg Strategol mai prin oedd y derbynyddion ecolegol i gyfyngu'r broses o ddewis coridor y llwybr.
115. Nid yw coridor llwybr CC1 wedi'i leoli mewn tirlun dynodedig cenedlaethol megis Parc Cenedlaethol neu Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac nid yw'n mynd trwy unrhyw ardaloedd ag iddynt sensitifwydd uchel.

Crynodeb o effeithiau posib ar gyfer llwybr dewis 2 (Llwybr dewisol SPM)

116. Sefydlodd yr asesiad na ddylai archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol gael eu hystyried, ar hyn o bryd, yn rhwystr diamod, ar yr amod y cyflawnir asesiadau a chamau lliniarol fyddai'n golygu diogelu asedau annynodedig cloddfa Nantiago a chyfyngu'r traffig yn agos at y gloddfa.
117. Dengys canlyniadau'r astudiaeth ben desg ecolegol nad yw'r adnodd ecolegol ar hyd y darn o'r llwybr o'r is-orsaf ar y safle i is-orsaf Carno yn debyg o fod yn rhwystr rhag datblygu'r llinell.
118. Gan fod y rhan fwyaf o'r llwybr o fewn ardaloedd coedwigol, a chan na fyddai fawr ddim angen os o gwbl i dorri coed, neu ar hyd ffyrdd lle y mae polion yn nodwedd gyffredin a derbyniol o'r tirlun, ychydig iawn o newidiadau ffisegol a achosid i'r tirlun, ac ychydig iawn o effaith weledol fyddai yn rhannau mwy sensitif y tirlun.
119. Yn absenoldeb unrhyw rwystr amgylcheddol o bwys yn effeithio'r naill llwybr posib na'r llall, bernir felly nad oes unrhyw reswm o'r pwys mwyaf pam na ellid creu cysylltiad â'r is-orsaf yng Nghefn Coch.

Casgliadau ac Effeithiau Gweddilliol

120. Cynhaliwyd yr Asesiad Effeithiau Amgylcheddol yn ôl y canllawiau a'r safonau perthnasol. Daw i'r casgliad y rhagwelir rhai effeithiau arwyddocaol ar y tirlun yn yr ardal leol oherwydd natur y tyrbinau gwynt a'r tir agored, gweledol. Byddai'r effeithiau hyn yn cael eu cyfyngu i raddau helaeth iawn o fewn pellter o 6.5 cilomedr. Ni fydd y tyrbinau ond yn weladwy o rannau ychydig ffyrdd, hawliau tramwy cyhoeddus ac ambell eiddo cyfagos.
121. Rhagwelir y bydd effeithiau tirluniol a gweledol cronus o bwys yn gyfyngedig i ardal wynebweidd Pumlumon a darnau o Llwybr yr Hafren a Llwybr Dyffryn Gwy.
122. Daeth yr asesiad o effeithiau tirluniol a gweledol i'r casgliad fod y datblygiad yn gweddu'n dda i gymeriad y tirlun ac na fydd yn amharu ar gymeriad y tirlun is-ranbarthol nac ar

amrywiaeth cymeriad y tirlun ehangach y tu hwnt i'r cyd-destun lleol. Mae'r effeithiau gweledol yn rhai y gellir eu dadwneud adeg dadgomisiynu'r fferm wynt.

123. Canfu'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol nad oedd yr effeithiau o ran ecoleg, sŵn, cysgodion symudol, daeareg, hydroleg a hydroddaeareg, archaeoleg a threftadaeth ddiwylliannol, cymdeithasol-economaidd a signalau electromagnetig yn rhai arwyddocaol.
124. O ystyried y defnydd presennol a wneir o'r safle yn ganolfan raliô, mae ei rwydwaith o draciau, lleoliad a hinsawdd gwynt y safle oll yn ei wneud yn addas iawn ar gyfer fferm wynt. Dengys yr Asesiad Effeithiau Amgylcheddol fod y safle yn anghyffredin o brin o gyfyngiadau.

Gweld y Cais am DCO

Mae'r NTS hwn a holl ddogfennaeth y Cais (gan gynnwys yr ES) ar gael i'w gweld neu i'w lawr lwytho o wefan yr Arolygiaeth Cynllunio:

<http://infrastructure.independent.gov.uk/cy/>

Bydd copïau cyhoeddus hefyd ar gael i'w gweld yn y lleoliadau canlynol:

- Gwasanaethau Cynllunio Cyngor Powys, Y Gwalia, Ffordd Ithon, Llandrindod, LD1 6AA
- Swyddfa Gynllunio Cyngor Ceredigion, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron, Ceredigion, SA46 0PA
- Swyddfa Bost Llangurig, Llangurig Stores, Llangurig, Llanidloes, Powys, SY18 6SG
- Llyfrgell Llanidloes, Mount Street, Llanidloes, Powys, SY18 6EY
- Llyfrgell Aberystwyth, Canolfan Alun R. Edwards, Sgwâr y Frenhines, Aberystwyth, SY23 2EB

Gellir cael copïau papur o'r NTS hwn a'r ES oddi wrth Francis Balsom Associates yn 4 Y Parc Gwyddoniaeth, Aberystwyth, SY23 3AH.

Codir tâl am bob copi o'r Datganiad Amgylcheddol, yn seiliedig ar gost atgynhyrchu a phostio'r dogfennau. Cewch wybod am y tâl hwn wrth archebu copïau. Darperir copïau o'r NTS yn rhad ac am ddim.